# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac David Simmons (Cadeirydd)

Aelodau Arweiniol yn bresennol ar gais y Pwyllgor: - Y Cynghorwyr R.L. Feeley, H. Irving a J. Thompson-Hill.

Roedd y Cynghorwyr J.R. Bartley, B. Blakeley, M.L. Holland ac W. Mullen-James yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Richard Davies, Peter Owen a/ac Merfyn Parry.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

(a) Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd Ddydd Iau 11 Mehefin, 2015.

***PENDERFYNWYD*** – *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir*.

(b) Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd Ddydd Iau 22 Mehefin, 2015.

***PENDERFYNWYD*** – *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir*.

## 5 DYFODOL GOFAL CYMDEITHASOL MEWNOL I OEDOLION

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Darparodd Gadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol, y Cynghorydd W. Mullen-James, grynodeb o bwrpas a gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen, a diolch i'r swyddogion am eu gwaith caled. Eglurodd mai cylch gorchwyl y Grŵp oedd ymgynghori ar ddyfodol gofal cymdeithasol oedolion mewnol a sicrhau cost effeithiolrwydd a gwerth gorau am arian yn Sir Ddinbych, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cadw eu hunaniaeth a'u cysylltiadau â'r gymuned.

Amlinellodd Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y canlyniadau gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn dilyn cam cyntaf y broses ymgynghori, a oedd yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd o adolygiadau unigolion a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi sylwadau ar yr wybodaeth a gasglwyd a'r argymhellion dilynol gan y Grŵp Tasg a Gorffen ar yr opsiynau i'w cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol â'r holl fudd-ddeiliaid. Roedd gwerthusiad opsiynau wedi'i ddatblygu ar gyfer pob un o'r gwasanaethau mewnol a oedd wedi'u hystyried gan y Pwyllgor ym mis Hydref, 2014 a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2014, ac roedd eu hargymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Eglurodd y Cynghorydd R.L. Feeley bod y gair "ymgynghori" wedi'i newid yn dilyn cyngor y Sefydliad Ymgynghori i sicrhau bod y broses yn cael ei hystyried fel ymarfer casglu gwybodaeth yn cynnwys teuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth, cyn cynnal ymgynghoriad llawn a phriodol.

Roedd manylion ar y fethodoleg a gytunwyd gan Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gyfer asesu anghenion unigolion a chasglu eu barn ar ddyfodol y gwasanaeth yn ogystal â'r cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer yr ymgynghoriad, wedi'u darparu. Roedd yr awgrymiadau gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn Atodiad 1, yn dangos yn glir bod yr asesiadau a safbwyntiau unigolion a theuluoedd wedi'u hystyried wrth gynnig atebion sy'n canolbwyntio ar foderneiddio darpariaeth gwasanaethau drwy fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'r boblogaeth ehangach o ran sut mae gofal modern a chymorth yn edrych, ar yr un pryd â chanolbwyntio adnoddau tuag at y meysydd lle mae'r galw uchaf a chyflawni'r arbedion gofynnol hefyd.

Roedd canlyniadau'r ymarfer casglu gwybodaeth wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghylch Hafan Deg y Rhyl, Dolwen Dinbych, Awelon Rhuthun, Cysgod y Gaer Corwen a Chynlluniau Gofal Ychwanegol ym Mhrestatyn, y Rhyl a Rhuthun.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai cyfanswm yr arbedion a nodwyd yn y cynigion yn cyfateb i £680mil dros gyfnod o 2 flynedd. Roedd manylion y broses ymgynghori a gynhaliwyd, a'r risgiau posibl a'r camau a weithredwyd i'w lliniaru, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod argymhelliad y Cabinet i ymgynghori'n ehangach wedi dechrau gan asesu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Awgrymodd bod canfyddiadau'r ymgynghoriad ehangach ar ddarpariaeth gofal preswyl a gofal ychwanegol, gyda chefnogaeth tystiolaeth leol a chenedlaethol, yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. Teimlwyd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r

Sefydliad Ymgynghori, a bod manylion y rhesymau dros newid yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y dystiolaeth lethol yn erbyn cartrefi gofal preswyl traddodiadol, gyda'r mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth yn mynegi dymuniad i aros yn eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth gofal ychwanegol. Amlinellwyd manylion opsiynau posibl trefniadau gweithio ar y cyd gyda'r Awdurdod Iechyd. Fodd bynnag, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'n amhriodol peidio â datblygu'r cynigion tra nad oedd gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd yn ddatrysiad hyfyw.

Eglurodd Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth, gyda'r cynigion gwreiddiol wedi'u diwygio i gynnwys datrysiadau da iawn i ddarparu cefnogaeth. Cadarnhawyd nad oedd amserlen na dyddiadau wedi'u cytuno hyd yn hyn, ac na fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu, nac unrhyw atgyfeiriadau'n cael eu hatal, cyn i'r Cabinet gytuno ar benderfyniad. Cyfeiriwyd at safon uchel y gwasanaeth a ddarparwyd gan weithwyr gofal Sir Ddinbych, ac at weithio gyda'r Awdurdod Iechyd yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y datganiad o fwriad, targedau hyfforddi yn y dyfodol ac arbedion posibl yn cael eu cyflawni trwy ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol.

Darparwyd cadarnhad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y gallai'r defnyddwyr gwasanaeth aros yn eu lleoliadau presennol ac y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, gellir ystyried dulliau gwahanol o ddarparu a darparwyd manylion y ddarpariaeth gwasanaeth i gefnogi gofalwyr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts at benderfyniad a wnaed gan y Cabinet y dylid cynnal ymarfer ymgynghori ehangach gan gynnwys y cyhoedd. Eglurodd er ei fod yn croesawu newid roedd yn teimlo mai dim ond sylwebaeth ynglŷn â'r sefyllfa bresennol oedd wedi'i darparu ac nad oedd tystiolaeth o'r buddion i'r cyhoedd a'r defnyddwyr gwasanaeth yn yr adroddiad. Amlygwyd bod angen darparu tystiolaeth benodol bod defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno cael mwy o annibyniaeth, ynghyd â datblygu cynllun strategol cyn llunio unrhyw benderfyniad terfynol. Pwysleisiodd bwysigrwydd yr angen i amlinellu safbwynt strategol gofal yn Sir Ddinbych i sicrhau eglurder yn y dyfodol. Holodd y Cynghorydd Roberts sut y byddai darpariaeth gofal yn ardal Rhuthun yn cael ei ddiwallu yn y dyfodol.

Cododd yr Aelodau nifer o faterion a darparwyd yr ymatebion a ganlyn gan y swyddogion:-

- Roedd unrhyw bryderon a godwyd gan aelodau o staff ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol a'r gofynion wedi derbyn sylw ar unwaith.
- Roedd ansawdd darpariaeth gwasanaeth wedi'i fonitro'n rheolaidd, gyda rheoli ansawdd yn sicrhau bod safonau darpariaeth wedi'u bodloni.
- Roedd targedau hyfforddi ar waith i sicrhau bod staff wedi'u cyflogi gan sefydliadau annibynnol yn derbyn yr hyfforddiant cywir.
- Eglurwyd y byddai'r costau'n gysylltiedig â darpariaeth gwasanaeth yn lleihau, ond gallai gynyddu dros gyfnod o amser gyda chwyddiant.

- Mynegodd yr Aelodau’r safbwynt y dylid cynnal lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gwasanaeth.
- Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer penderfyniad y Cabinet mewn perthynas â Dolwen, ac ynglŷn â chysondeb y staff yn y categorïau gwahanol yn y Cartref.
- Cyfeiriwyd at y cysylltiad rhwng y GIG a darparwyr Gofal Cymdeithasol.
- Mynegwyd pryder na allai’r lefel o ofal dydd sy’n cael ei ddarparu gan Sir Ddinbych a’i staff gael ei efelychu gan y darparwyr gofal dydd preifat.
- Bod yr holl fudd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys cymdeithasau tai, yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

Ar ddisgresiwn y Cadeirydd siaradodd Mr David Jones o Langollen ynglŷn â’r darpariaeth gwasanaeth yn ardal Llangollen a’r dirywiad yn y galw am wasanaeth o ganlyniad i newid yn y gofynion cymhwysedd. Cyfeiriodd at y cynnydd posibl yng nghostau’r gwasanaeth fesul preswylydd o ganlyniad i hyn ac amlinellodd yr cyfleoedd sydd ar gael i Sir Ddinbych ddylanwadu ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau darpariaeth gofal cymdeithasol priodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gefnogaeth a fynegwyd ar gyfer y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet o ran ymarfer ymgynghori ehangach bod adroddiadau’r dyfodol yn cynnwys manylion yr ymchwil perthnasol a wnaed a chyfnod ymgynghori y gellir ei ymestyn os oes angen.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor yn:-*

*(a) cefnogi ystyriaeth y Cabinet o adroddiad ym mis Medi mewn perthynas â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus.*
*(b) argymell bod cynigion neu opsiynau yn adroddiadau'r dyfodol yn nodi'r ymchwil a’r dystiolaeth waelodol, ac*
*(c) argymell y gellir ymestyn y cyfnod ymgynghori, os oes angen*.

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, a oedd yn darparu diweddariad ar reoli iechyd a diogelwch yn Sir Ddinbych fel y gwelir o safbwynt Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, wedi’i ddosbarthu gyda’r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â diweddariad blynyddol ar reoli iechyd a diogelwch yn Sir Ddinbych. Roedd gweithgareddau'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys nifer o weithfannau gweithredol yn Sir Ddinbych ac roedd gwelliannau o ran ymwybyddiaeth a rheoli iechyd a diogelwch wedi’u harsylwi. Pan fydd gwendidau, bylchau neu broblemau yn cael eu nodi mewn systemau neu broses rheoli, mae cymorth, cyfarwyddyd a hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn unol â faint o adnoddau sydd ar gael.

Roedd adborth Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu bod rheoli diogelwch Sir Ddinbych yn gadarnhaol. Er gwaethaf y ffaith ein bod mewn sefyllfa gadarnhaol ar y cyfan, mae’n bwysig nad ydym yn llaesu dwylo a rhaid i ni barhau i arwain a chefnogi’r broses o wella Iechyd a Diogelwch.

Roedd y data ar gyfer nifer y damweiniau/ digwyddiadau o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015 yn nodi bod nifer y digwyddiadau wedi gostwng o 2013/14. Roedd y gostyngiad yn adlewyrchu'r cyngor a ddarparwyd i'r ysgolion fel y cyfranwyr mwyaf i'r niferoedd, ac roedd y Tîm yn ymwybodol bod posibilrwydd nad oedd pob digwyddiad yn cael eu hadrodd. Roedd digwyddiadau Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) hefyd wedi gostwng yn rhannol oherwydd roedd gofynion adrodd RIDDOR wedi'u newid ar ddiwedd 2013.

Darparwyd manylion un digwyddiad sylweddol, yn ymwneud â gweithiwr rheoli gwastraff, a arweiniodd at archwiliad llawn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gan ganfod nad oedd unrhyw fai ar y Cyngor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ynglŷn â:-

- Monitro systemau diogelwch yn y gweithle.
- Cais gan y crwner i edrych ar bromenâd Prestatyn yn dilyn cwymp a arweiniodd at farwolaeth. Roedd yr adroddiad wedi'i gynnwys fel Atodiad 2.
- Depo fflyd - Roedd Atodiad 3 yn darparu manylion am broblem barhaus gyda Plastecowood.
- Roedd pryderon yn ymwneud â Chlwb Hwylio y Rhyl, Wal y Cei a'r Iard Gychod wedi'u cynnwys yn Atodiad 4. Cofrestr Amddiffyn Staff.
- Strwythur Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Adrodd am Ddamweiniau / Digwyddiadau

Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Roberts at adran 4.1.3 yr adroddiad ac amlygu pwysigrwydd sicrhau bod adeiladau ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i osgoi damweiniau. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod yr holl ddamweiniau a adroddwyd mewn ysgolion yn cael eu cofnodi'n electronig a'u hasesu'n unigol i benderfynu os oes angen camau pellach. Hysbyswyd yr Aelodau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, a bod gan bob ysgol Bwyllgor Iechyd a Diogelwch, a oedd yn monitro materion iechyd a diogelwch yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll Davies ynglŷn â diogelwch yn adeiladau'r Cyngor a'r pwysigrwydd bod staff ac aelodau'r cyhoedd yn arddangos eu bathodynnau adnabod, cytunodd y RhGD i ymchwilio i'r pryderon a godwyd ynglŷn â diogelwch ac ymwelwyr adeiladau'r Cyngor.

Ymatebodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i gwestiwn gan y Cynghorydd G.Sandilands ac fe gadarnhaodd bod y lefelau hyfforddiant a ddarparwyd i staff wedi aros yr un fath yn 2015 a 2014. Eglurodd bod y cyrsiau sydd ar gael wedi'u hysbysebu ar TRENT ac ar y fewnrwyd, gyda'r hyfforddiant a ddarparwyd yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau personol.

Mewn ymateb i ymholiadau ynglŷn â hawliadau yn erbyn yr Awdurdod, eglurodd Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod cydymffurfio â darpariaethau Dyletswydd Atebolrwydd Deiliaid mewn Cyfraith Sifil, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd rhagofalon rhesymol, yn cael eu defnyddio fel sail amddiffyn pe bai hawliad yn erbyn y Cyngor.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â phroblemau oherwydd gwylanod, yn enwedig ar dir ysgolion. Cadarnhaodd Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod yr wybodaeth a'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r testun hwn wedi'u cydymffurfio gan Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg a'u dosbarthu i'r ysgolion. Amlinellwyd manylion y ddeddfwriaeth berthnasol a'r goblygiadau cyfreithiol ar gyfer y Pwyllgor. Cadarnhaodd Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, er bod y mater y tu hwnt i gylch gwaith y Cyngor, ei bod hi a Phennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd wedi cytuno i archwilio'r opsiynau sydd ar gael a darparu cyngor i fynd i'r afael â'r broblem yn y dull priodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith rhagorol a wnaed gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Eglurodd bod Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu copïau o'r systemau diogelwch a ddefnyddir yn y busnes casglu gwastraff i awdurdod cyfagos, gan eu bod yn ystyried systemau Sir Ddinbych fel enghraifft o'r arfer gorau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi gweithgareddau'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, ac*
*(b) yn gofyn i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd ymchwilio'r pryderon a godwyd ynglŷn â diogelwch mewn perthynas ag ymwelwyr sefydliadau'r Cyngor.*

**7 ADRODDIAD CWYNION EICH LLAIS – CHWARTER 4**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol, sy'n darparu trosolwg o'r canmoliaethau, awgrymiadau a chwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan bolisi adborth cwsmeriaid y cyngor, 'Eich Llais', yn ystod Chwarter 4 2014/15 (Atodiad 1) wedi'u dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg yr adroddiad ac egluro y byddai'r Swyddog Cwynion Corfforaethol, Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, yn dilyn adolygiad, yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol, disgwylir y byddai hyn yn gwneud y broses yn fwy gwydn. Cadarnhaodd y byddai Adroddiad nesaf Cwynion Eich Llais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel adroddiad ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfeiriwyd at fylchau ar draws y sefydliad yn yr adroddiadau blaenorol, ac awgrymwyd bod y Pwyllgor yn ystyried cyflwyno dull sy'n fwy systematig a dysgu o'r canmoliaethau, cwynion ac awgrymiadau a dderbyniwyd.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am unrhyw faterion perfformiad ac yn gwneud argymhellion i ymdrin â'r rhain yn unol â hynny.

Roedd penawdau ar gyfer Chwarter 4 wedi'u hymgorffori yn Atodiad 1.

- Roedd y Cyngor wedi derbyn 78 o gwynion yn Ch4, gan ddod â'r cyfanswm blynyddol i 411, gostyngiad o 19% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd y Cwynion yn erbyn y Gwasanaethau Amgylcheddol wedi gostwng o 39%; 14 yn Ch4 o gymharu â 23 yn Ch3.
- Bu gostyngiad yn nifer y cwynion yn erbyn yr adran Priffyrdd ac Isadeiledd am y tro cyntaf eleni. Gostyngiad o 48%; 15 yn Ch4 o gymharu â 29 yn Ch3.
- Roedd cwynion cam 2 ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cynyddu o 75%; o 4 yn Ch3 i 7 yn Ch4.
- Derbyniodd y cyngor 103 o ganmoliaethau yn ystod Ch4.
- Derbyniodd y cyngor 16 o awgrymiadau yn ystod Ch4.

Manylion perfformiad – Ch4:-

- Ymatebwyd i 88% (66/75) o gwynion cam 1 o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Nid oedd hyn wedi diwallu'r targed corfforaethol o 95%.
- Ymatebwyd i 67% (6/9) o gwynion cam 2 o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Nid oedd hyn wedi diwallu'r targed corfforaethol o 95%.
- Deliwyd â 92% (69/75) o'r cwynion yn llwyddiannus yn ystod cam 1.
- Amlygwyd pedwar maes gwasanaeth â statws COCH; Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, yr Amgylchedd, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (cam 2) a'r Adran Priffyrdd ac Isadeiledd (cam 2).
- Roedd 3 maes gwasanaeth wedi eu hamlygu'n OREN; Tai a Datblygu Cymunedol, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Priffyrdd ac Isadeiledd.

Ymatebodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg i'r cwestiynau gan yr Aelodau mewn perthynas â phroblemau a gafwyd gyda system EMMA. Eglurwyd bod system EMMA yn ddatrysiad dros dro wrth aros i osod system Rheoli Cyswllt Cwsmer newydd fyddai'n cael ei gosod erbyn diwedd y flwyddyn. Cadarnhaodd bod llyfryn Eich Llais ar gael yn ddwyieithog ac y dylid dangos a dosbarthu fersiynau'r ddwy iaith yn gyfartal.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffigyrau canran yn yr adroddiad a holi os oedd y gwasanaethau oedd yn methu â bodloni eu targedau o fewn y terfynau amser penodol yn cael eu monitro. Cadarnhaodd Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod y toriadau'n cael eu monitro'n rheolaidd a'u codi gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Eglurwyd mewn achosion lle y bu methiant parhaus i ddiwallu terfynau amser gellir dwyn yr adran dan sylw gerbron y Pwyllgor i ddarparu eglurhad.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr angen i godi proffil o ran cwynion a chanmoliaethau gan arddangos proses o ddysgu, ac nid dim ond nodi'r nifer a dderbyniwyd. Cyfeiriodd at yr argymhelliad bod y Pwyllgor yn cynorthwyo gyda'r agenda trwy gwestiynu ymateb darparwyr gwasanaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd. Awgrymwyd y gallai hyn effeithio ar gynllunio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, a chynnwys cyflwyno systemau a newidiadau cadarnhaol mewn ymarfer i ddelio a'r cwynion. Cadarnhaodd Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod adroddiad o'r hyn a ddysgwyd o adborth cwynion wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor hwn

a’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ac fe gytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei atodi at yr adroddiadau chwarterol yn y dyfodol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cadeirydd mewn perthynas â’r Gwasanaeth Cyllid ac Asedau, eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod y materion yn ymwneud â’r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi trosglwyddo i'r Adran Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, ac roedd hyn wedi’i amlygu’n goch yn awr. Eglurodd Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod y mater wedi’i godi yng nghyfarfod Bwrdd CIVICA Refeniw a Budd-daliadau a’u bod wedi'u hysbysu y byddai’r mater yn cael ei adrodd.

Yn ystod y trafodaeth a ddilynodd gofynnodd y Cadeirydd bod yr ystadegau a nodwyd yng nghopïau papur y rhaglen yn cynnwys canllawiau dangosyddion lliw i gynorthwyo’r aelodau e.e. ‘G’ ar gyfer Gwyrdd ac ati.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn:-*

*(a) derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, a*
*(b) chytuno bod copi o adroddiad yr hyn a ddysgwyd o adborth cwynion yn cael ei atodi at yr adroddiadau Chwarterol yn y dyfodol*.

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o ‘Ffurflen Cynnig Aelod’ wedi’i gynnwys yn Atodiad 2. Eglurwyd na fyddai eitemau’n cael eu hychwanegu at y rhaglen gwaith i’r dyfodol heb gyflwyno ‘ffurflen cynnig archwilio’ a bod y Pwyllgor neu'r GCIGA yn cymeradwyo’r cynnig. Cadarnhaodd RhGD bod cymorth ar gael i Aelodau lenwi’r ffurflen os oes angen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 24 Medi 2015, a chytuno y dylai’r pum eitem fusnes a drefnwyd i’w trafod aros ar y rhaglen. Eglurodd y Prif Weithredwr y gallai’r eitemau busnes mewn perthynas â “Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon” a “Chweched y Rhyl” gael eu trafod dan yr un eitem fusnes.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.Hilditch-Roberts ynglŷn â’r broses o asesu a chraffu adroddiadau arolwg Estyn, gan gyfeirio’n benodol at ysgolion lle y nodwyd bod pryderon a’r mecanweithiau sydd ar waith i ddarparu cymorth, eglurodd y Prif Weithredwr bod yr adroddiadau’n cael eu casglu gan y Tîm Addysg, ac amlinellodd rôl a chylch gwaith Grŵp Monitro Safonau Ysgolion lle y trafodir materion yn ymwneud ag ysgolion penodol. Darparodd y Cynghorydd A. Roberts amlinelliad o’r gwaith a wnaed gan y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a chytuno bod manylion ynglŷn ag aelodaeth a chylch gwaith y Grŵp yn cael ei ddosbarthu i’r Aelodau, gan gynnwys gwybodaeth a allai’r Cynghorwyr fynychu cyfarfodydd y Grŵp fel arsylwyr.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Ni chafwyd unrhyw adroddiadau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 12.25pm.